# Ardroddiad ar

# Ffrindiau Bach Tegryn
# Canolfan Intergredig Tegryn
# Aberporth
# Ceredigion
# SA43 2EN

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2016**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu mae enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2017**

## Gwybodaeth am y lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Ffrindiau Bach Tegryn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Heather Davies-Rollinson<br>Meithrinfeydd Cymru Cyf |
| Person â gofal | Wendy Davies |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant a ariennir ar gyfer eu haddysg | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener<br>9.00-12.00 a 12.30 – 3.15 |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | 20 Tachwedd 2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma arolygiad cyntaf Ffrindiau Bach Tegryn gan Estyn |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 6 Rhagfyr 2016 a 7 Rhagfyr 2016 |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r lleoliad yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg. Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg fel iaith y cartref

## Crynodeb o'r adroddiad

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Da |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Diffyg cydymffurfio**

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Cryfhau gweithdrefnau'r cynllunio tymor hir ar gyfer datblygu medrau plant yn gynyddol ar draws pob maes dysgu

A2 Sicrhau bod targedau'r cynlluniau datblygu yn fwy mesuradwy

A3 Ffurfioli gweithdrefnau goruchwylio staff

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Lles | Da |
|---|---|

Mae llais cryf iawn gan y plant ac maent yn gwneud penderfyniadau deallus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynegi barn yn dda iawn ac yn cyfrannu syniadau creadigol at weithgareddau trwy greu mapiau meddwl neu lluniau. Er enghraifft, maent wedi enwi'r siop yn 'Siop Nadolig Llawen' ac mae llawer yn arddangos cyffro a miri wrth drafod effaith y rhew ar yr ardal chwarae allanol yn hyderus. Yn ystod amser cylch, mae mwyafrif y plant yn trafod eu teimladau yn ddeallus ac yn egluro pam maent yn teimlo'n hapus, yn gyffrous neu'n drist. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol iawn am eu gweithgareddau, er enghraifft wrth adeiladu eu cwrs rhwystrau eu hunain. Maent yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal chwarae i'r llall gan ddewis llyfrau, teganau ac offer priodol. Er enghraifft, maent yn estyn am glychau o'u gwirfodd pan fyddant yn canu ac yn chwilio am jwgiau a photeli bach wrth chwarae yn y tywod. Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwybod y bydd ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda i'w dymuniadau ac maent yn gwneud dewisiadau cadarn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn ddyddiol ac mae bron pob un o'r plant iau yn gwybod bod amser cylch yn dilyn amser tacluso. Mae bron pob plentyn yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn arbennig o dda. Mae llawer o'r plant yn canu wrth iddynt ymgolli'n llwyr yn eu gweithgaredd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus iawn ac yn arwain chwarae yn rheolaidd trwy gynorthwyo eu ffrindiau i ddarllen stori, sôn am y tywydd neu drwy arwain y weddi cyn byrbryd. Mae hwyl a chwerthin afieithus ymysg y plant a'r ymarferwyr yn rhan annatod o ethos y lleoliad ac mae hyn yn sicrhau bod llawer o'r plant yn dangos diddordeb di-flino a chyffro dibendraw wrth chwarae a dysgu.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn ffurfio cyfeillgarwch gydag eraill ac yn cyd-chwarae'n arbennig gyda'i gilydd. Maent yn dangos consyrn os oes rhywun yn dweud eu bod yn teimlo'n drist, yn cynorthwyo eraill i glymu esgidiau ac yn cysuro plant trwy ddal eu dwylo os ydynt yn teimlo'n ansicr. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad. Mae llawer yn deall pwysigrwydd gofalu am eraill llai ffodus ac maent yn siarad yn synhwyrol iawn am gasglu bwydydd i'r banc bwyd lleol a chasglu llyfrau i blant ym Malawi. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu synnwyr o dda a drwg ac yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrtais ac yn defnyddio moesau arbennig adeg byrbryd. Maent yn rhannu offer yn ddirwgnach, yn cydweithredu ac yn cymryd eu tro yn briodol. Er enghraifft, maent yn cyd-dynnu'n ardderchog yn y siop wrth aros eu tro i brynu a gwerthu nwyddau Nadolig.

Mae bron pob un o'r plant yn dysgu medrau newydd wrth iddynt brofi amrywiaeth wych o gyfleoedd chwarae. Mae'r plant yn dod yn fwyfwy annibynnol ac mae eu medrau datrys problemau yn datblygu'n dda iawn. Er enghraifft, mae monitor y dydd yn gyfrifol am sicrhau bod nifer y cwpanau a'r powlenni yn cyfateb i faint o blant sydd yn cael byrbryd. Mae'r plant hŷn yn golchi dwylo ac yn mynd i'r tŷ bach yn annibynnol ac yn gwisgo eu cotiau a'u hesgidiau yn ddidrafferth. Maent yn dysgu i barchu eu hamgylchfyd trwy ailgylchu deunyddiau a rhoi bwyd i'r adar yn y bocsys maent wedi'u creu.

| Dysgu (i blant tair oed yn unig) | Da |
|---|---|

Mae llawer o’r plant yn gwneud cynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth, tra yn y lleoliad.

Mae llawer o’r plant yn gwrando’n astud ar storïau ac yn ymuno’n bwrpasol yn y caneuon a’r symudiadau. Mae llawer yn dod o hyd i’w henwau ac yn hunangofrestru yn annibynnol. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn ofalus iawn, er enghraifft wrth osod eu henwau o dan sut maent yn teimlo wrth gyrraedd y lleoliad bob bore. Mae’r rhan fwyaf yn mwynhau gwrando ar stori yn ymwneud â’r Nadolig ac mae’r mwyafrif yn dewis mynd i nôl llyfr gan ddal a throi tudalen yn gywir. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn trin ystod o offer bach a chyfarpar ysgrifennu yn hyderus gan ddechrau deall bod diben i ysgrifennu, er enghraifft wrth ‘ysgrifennu’ llythyr i Santa. Mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio’r Gymraeg wrth ymateb i gwestiynau gan yr ymarferwyr yn seiliedig ar lyfr ‘Rhodri Rhew’. Mae eu geirfa ac amrediad eu patrymau brawddeg yn datblygu’n dda, gyda’r mwy abl yn rhoi atebion estynedig. Fodd bynnag, lleiafrif sydd yn defnyddio’r Gymraeg yn ddigymell wrth iddynt chwarae.

Mae medrau rhif llawer o’r plant yn datblygu’n dda iawn ar gyfer eu hoed a’u gallu. Mae bron pawb yn adrodd rhifau i dri. Mae mwyafrif yn dechrau adnabod a defnyddio rhifau i bump wrth brynu addurniadau yn y Siop Nadolig Llawen. Mae tua hanner yn dechrau defnyddio rhifau i 10 yn eithaf hyderus. Mae llawer o’r plant yn adnabod siâp dau ddimensiwn yn dda yn y dosbarth wrth ddewis o wahanol siapau o dost i’w fwyta ac wrth ddewis addurniadau Nadolig.

Mae llawer o’r plant yn dechrau dod yn hyderus wrth ddefnyddio cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Defnyddiant feicroffon yn bwrpasol iawn wrth arwain y weddi i ddiolch am y bwyd. Mae hyn yn datblygu eu medrau llafar a’u hunanhyder yn effeithiol iawn. Mae llawer yn dechrau defnyddio llechen electronig yn fwriadus wrth ddefnyddio apiau i atgyfnerthu eu medrau rhif ac adnabod llythrennau. Maent yn rheoli symudiadau tegan electronig yn gywir gan adnabod sawl cam sydd angen er mwyn cwblhau taith o un lleoliad i’r llall. Mae’r plant mwy abl yn esbonio beth sydd wedi mynd o’i le os nad ydynt yn llwyddiannus.

Mae gan lawer o’r plant fedrau corfforol datblygedig iawn ac maent yn cydbwyso’n fedrus wrth gamu o garreg i garreg wrth groesi’r dŵr ar lan y môr. Maent wrth eu bodd yn llunio llwybrau antur, dringo ar y wal ddringo neu’n ‘cerdded y planc’ fel rhan o thema ar fôr ladron. Mae llawer yn defnyddio offer bach, fel sisyrnau a brwshys paent, gyda rheolaeth dda wrth beintio neu gwneud addurniadau ar gyfer y goeden Nadolig. Mae medrau llawer o’r plant o ran datrys problemau yn datblygu’n dda iawn, er enghraifft wrth ddatrys faint yn fwy o fygiau sydd eu hangen ar gyfer amser byrbryd neu sut i gadw mat y tegan electronig rhag codi. Mae llawer o’r plant yn dechrau datblygu’n ddysgwyr annibynnol wrth gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Maent yn datblygu hyn drwy wneud dewisiadau am yr hyn maent yn hoffi yn ystod amser byrbryd ac adeg dewis rhydd.

| Gofal a datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i ddiogelwch ac iechyd y plant. Maent yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau perthnasol y lleoliad ac mae’r rhan fwyaf

ohonynt wedi wedi mynychu hyfforddiant ar gyrsiau priodol fel cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac atal croesheintio. Maent i gyd yn gyson yn ymarfer gweithdrefnau hylendid da ac yn golchi dwylo a gwisgo ffedogau a menig. Mae’r ymarferwyr yn dilyn gweithrefnau da iawn ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau ac mae asesiadau risg yn cael eu diweddaru yn dymhorol.

Mae’r lleoliad yn sicrhau cyfleoedd arbennig i’r plant fyw’n iach ac mae ymarferwyr yn atgyfnerthu pwysigrwydd iechyd y geg trwy annog y plant i frwsio’u dannedd yn ddyddiol. Cynigir amrywiaeth gwych o ffrwythau i’r plant adeg byrbryd er mwyn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y plant ymhellach. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gweithgareddau corfforol rhagorol, er enghraifft symud a dawnsio ar ddechrau pob sesiwn a chyfleoedd rheolaidd yn eu hardal allanol a’r traeth lleol i redeg, gyd-bwyso, neidio a dringo.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o’r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol a diweddar. Maent i gyd yn gyfarwydd â gweithdrefnau diogelu’r lleoliad ac yn deall eu cyfrifoldebau.

Defnyddia’r ymarferwyr strategaethau ymddygiad cadarnhaol ac maent yn delio ag unrhyw anniddigrwydd yn ardderchog. Maent yn gyson garedig ac addfwyn wrth siarad â’r plant ac mae hyn yn arwain at awyrgylch gadarnhaol ac hamddenol. Mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd gwych o’r cynllun anifail anwes lle mae plant yn darllen a gwrando ar stori yng nghwmni’r anifail anwes. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at ymddygiad arbennig y plant. Mae ymarferwyr yn atgoffa’r plant yn ddyddiol o reolau aur y lleoliad ac yn eu hysgogi i gyd-chwarae, rhannu a chymryd tro. Rhoddir anogaeth a chefnogaeth i’r plant i ddatrys unrhyw wrthdaro eu hunain. Er enghraifft, gofynnir i’r plant sut y gallent wneud eu ffrind i deimlo’n hapusach ac, o ganlyniad, mae llawer yn ymddiheuro o’u gwirfodd ac yn cysuro ffrind yn reddfol. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd ac yn atgyfnerthu eu hunanhyder.

Mae systemau cadarn yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae’r lleoliad yn cydweithio’n agos iawn gydag asiantaethau allweddol fel therapyddion lleferydd ac ymwelwyr iechyd. Rhoddir gwybodaeth gynhwysfawr i rieni am gynnydd eu plant.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o’u hanghenion, eu galluoedd a’u hoffterau unigol. Maent yn darparu amgylchedd gofalgar ac yn rhoi anghenion y plant yn gyntaf. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael amser ychwanegol i gwblhau tasgau pan fo angen. Mae’r ymarferwyr yn gosod ac yn monitro targedau unigol er mwyn hybu datblygiad pob plentyn.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i adnoddau a gweithgareddau. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am wahanol ddiwylliannau. Er enghraifft, maent yn cymharu sut mae plant yn byw ym Malawi. Mae’r ymarferwyr yn codi ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am bobl llai ffodus ac yn codi arian i achosion da, er enghraifft Plant mewn Angen.

| Addysgu ac asesu (i blant tair oed yn unig) | Da |
| --- | --- |

Mae’r ymarferwyr yn paratoi cynlluniau cadarn sydd yn darparu ystod o brofiadau diddorol ac ysgogol ar draws yr holl feysydd dysgu yn seiliedig ar egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwneud defnydd addas o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i lywio’r dysgu. Cynllunir gweithgareddau sy’n sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau o dan arweiniad yr oedolion a gweithgareddau y mae’r plant yn eu dewis eu hunain. Mae’r gweithgareddau yn llwyddo’n dda i gadw diddordeb y rhan fwyaf o’r plant. Mae hyn yn eu galluogi i ddyfalbarhau â’u tasgau, gyda llawer yn gwneud hyn am gyfnodau estynedig. Mae’r cynlluniau wythnosol yn nodi amcanion dysgu clir ar gyfer gweithgareddau ffocws ynghyd â gweithgareddau addas sy’n bodloni anghenion y rhan fwyaf o’r plant. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd priodol i’r plant gynnig eu syniadau, er enghraifft trwy lunio mapiau meddwl wrth gynllunio ar gyfer gwaith y tymor. Mae’r cynllunio ar gyfer gweithgareddau ffocws a gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu yn dechrau nodi tasgau i herio plant hŷn ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyraeddiadau. Fodd bynnag, nid yw’r gweithdrefnau cynllunio yn ddigon manwl i sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau ar draws bob maes dysgu.

Mae’r gweithgareddau wythnosol a dyddiol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant. Mae ymarferwyr yn sicrhau ffocws pendant ar ddatblygu medrau llafar plant. Mae hyn yn galluogi llawer i gyfathrebu yn eithaf hyderus yn y Gymraeg. Mae cyfleoedd ymarferol i sicrhau bod llawer yn datblygu medrau rhifedd cadarn, er enghraifft wrth gyfri ceiniogau go iawn i brynu nwyddau o’r siop.

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw dathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi a’r ŵyl Ddiolchgarwch.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau lles, datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn datblygu’n llwyddiannus. Mae’r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau, er enghraifft coginio a bwyta losin traddodiadol i ddatlhu Diwali a'r flwyddyn newydd Tsieineaidd. Maent yn darparu cyfleoedd cadarn i blant i ail-gylchu bwyd a phapur ac yn dablygu cyfrifoldeb y plant drwy benodi monitor gwyrdd i ofalu am hyn yn ddyddiol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaladwyedd yn fedrus.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o’r gymuned i gyfoethogi profiadau’r plant. Er enghraifft, mae ymweliadau â’r traeth yn datblygu ymwybyddiaeth o’r byd o’u cwmpas a’r ardal leol yn llwyddiannus. Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, er enghraifft ymweliadau gan berchennog ac anifail anwes ar gynllun hybu darllen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad ac emosiynau’r plant o ran creu awyrgylch dawel, ofalgar. Un o gryfderau’r cylch yw’r berthynas hyfryd sy’n bodoli rhwng ymarferwyr a’r plant. Maent yn rheoli ymddygiad yn sensitif ac yn deall anghenion y plant yn dda. O ganlyniad, mae llawer o’r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dechrau dangos parch tuag at eu ffrindiau drwy rannu adnoddau ac wrth gyd-chwarae’n llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd cyson i ymestyn iaith y plant drwy gyflwyno geirfa a phatrymau brawddeg newydd yn rheolaidd. Trwy gydol y bore, mae ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol ac yn darparu digon o gyfleoedd iddynt ymateb i holi medrus.

Mae gweithdrefnau asesu'r lleoliad yn datblygu'n effeithiol ac mae pob un o'r ymarferwyr yn cyfrannu'n effeithiol at y broses. Gan fod yr ymarferwyr hefyd yn cynnig darpariaeth i blant Dechrau'n Deg yn y prynhawn, mae'r plant bron yn ddieithriad wedi arfer dod i'r adeilad ers yn ddwy oed. Mae'r plant wedi eu hasesu yn dilyn canllawiau Dechrau'n Deg cyn cychwyn yn y lleoliad ac mae'r ymarferwyr yn adeiladu ar hyn yn fwriadus. O ganlyniad, maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn cynnal y cofnodion cynnydd yn bwrpasol. Mae'r adroddiad i rieni ar ddiwedd cyfnod y plant yn y lleoliad yn dangos bod bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn y chwe maes dysgu ac yn nodi'r cam ymlaen. Mae'r adroddiadau hyn yn glir ac yn gynhwysfawr.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae plant yn derbyn gofal mewn adeilad newydd sydd wedi'i gynllunio i hyrwyddo'u hannibyniaeth a'u hannog i ddysgu a datblygu. Gwneir defnydd rhagorol o'r amgylchedd gan fod ardaloedd chwarae ysgogol wedi'u creu gan gynnwys ardaloedd tawel, chwarae rôl, darganfod, creadigol, byd bach a mathemateg. Ceir amrywiaeth wych o adnoddau ym mhob ardal, i gyd o fewn cyrraedd rhwydd y plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar a diddorol a cheir arddangosfeydd niferus o bosteri a gwaith crefft y plant, nifer ohonynt o fewn cyrraedd y plant. Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Gall y plant hŷn fynd i'r tai bach a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid.

Mae'r amgylchedd yn hynod ddiogel a glân ac, o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles plant. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Sicrheir bod yr asesiadau risg a gwiriadau diogelwch yr offer tân, gwresogi a thrydanol yn gyfredol. Ceir ymarferion tân yn rheolaidd ac mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion, ac mae'r plant yn ymwybodol o'r trefniadau i'w dilyn. Mae'r lleoliad yn cael ei lanhau'n ddyddiol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da iawn o'r ddarpariaeth allanol ac yn cynllunio cyfleoedd chwarae ardderchog i'r plant. Er enghraifft, mae'r plant wedi gwneud bocsys adar yn yr ardal natur ac mae'r caban yn cael ei addasu yn ôl y thema. Mae'r plant yn cael cyfleoedd arbennig i chwarae'n gorfforol ar y llithren, y wal ddringo a'r cwrs rhwystrau. Mae'r ymarferwyr yn hybu creadigrwydd a dychymyg y plant yn yr ardaloedd marcio, twba tywod a chegin fwd.

Ceir cyflenwad rhagorol o adnoddau a ansawdd da, sy'n briodol i oedran a datblygiad y plant. Mae'r adnoddau yn hygyrch i'r plant ac maent yn cael eu storio mewn bocsys lefel isel gyda labeli Cymraeg a lluniau i alluogi'r plant i wneud dewisiadau ynglŷn â'u chwarae. Mae ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys llyfrau a doliau. Ceir dewis da o adnoddau i blant ddatblygu'u medrau TGCh gan gynnwys llechi ac adnoddau sain.

| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |
|---|---|

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sef darparu gwasanaeth o’r safon uchaf ymhob agwedd o’i gwaith. Mae wedi llwyddo i rannu'r weledigaeth hon yn effeithiol trwy feithrin ysbryd o gydweithio clos ymysg yr holl ymarferwyr a hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Mae’r arweinydd yn rhoi ffocws clir iawn ar les y plant er mwyn creu ethos gofalgar iawn. O ganlyniad, mae pawb yn cydweithio’n bwrpasol i sicrhau profiadau gwerthfawr i’r plant yn eu gofal. Caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddaru’n flynyddol ac mae'n ddarlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei ddarparu. Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn rhagori’n rheolaidd ar y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r arweinydd yn cyflwyno trosolwg llafar buddiol am gynnydd y lleoliad a meysydd i'w gwella i’r unigolyn cyfrifol.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda iawn. Mae’r broses hunanarfarnu bresennol yn cynnwys cyfraniadau pwrpasol gan ymarferwyr a rhieni. Mae’r arweinydd yn cydweithio’n effeithiol gyda swyddogion yr awdurdod lleol ar sut i arfarnu gwaith y lleoliad. Mae’r arweinwyr wedi adeiladu ar y wybodaeth hon er mwyn llunio adroddiad sydd yn ddarlun cywir o waith presennol y lleoliad. Mae’r adroddiad yn adnabod llawer o’r cryfderau a’r materion sydd angen eu gwella. Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau’r adroddiad hunanarfarnu a’r cynllun datblygu. Mae gan y cynllun ffocws clir ar godi safonau medrau llythrennedd, corfforol a TGCh y plant. Fodd bynnag, nid yw’r targedau ar bob achlysur yn ddigon mesuradwy er mwyn monitro camau gweithredu a sicrhau gwelliant.

Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i apwyntio a chefnogi staff. Mae’r arweinydd wedi sicrhau bod gan ymarferwyr gymwysterau addas i gyflawni eu swyddi ac i gefnogi anghenion yr holl blant yn effeithiol. Mae gan bob un swydd ddisgrifiadau clir ac maent yn deall eu cyfrifoldebau. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn gyfle da i drafod a chydweithio’n fwriadus i ddarparu safon da o ofal ac addysg. Mae’r arweinydd yn arfarnu gwaith pob ymarferwr yn flynyddol ac yn trafod eu perfformiad a’u anghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus. Yn sgil hyn, mae’r arweinydd yn targedu hyfforddiant buddiol sy’n benodol i’r unigolion ac sy’n ymateb i faterion gwella o fewn y cynllun gwella. Trwy’r prosesau hyn, mae’n gosod disgwyliadau uchel ac yn cynorthwyo a herio pawb i wneud eu gorau. Fodd bynnag, nid yw’r gweithdrefnau i gofnodi cyfarfodydd goruchwylio staff yn ddigon ffurfiol i fedru dweud os yw’r goruchwyliaeth yn briodol neu beidio.

Mae’r lleoliad yn meithrin cydweithio effeithiol gydag ystod o bartneriaethau gan gynnwys rhieni, yr awdurdod lleol, Dechrau’n Deg a’r ysgol gynradd leol. Mae’r cydweithio hyn yn cyfrannu’n helaeth at les y plant, yn codi safonau, yn cyfoethogi’r ddarpariaeth ac yn cryfhau’r arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 15 | 13 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 15 | 13 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 15 | 8 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 15 | 14 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 13 | 1 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 87% | 7% | 7% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 15 | 14 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 14 | 6 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 43% | 57% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 6 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 40% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 15 | 13 | 1 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 87% | 7% | 7% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 15 | 6<br>40% | 9<br>60% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 14 | 7<br>50% | 7<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 7<br>47% | 6<br>40% | 1<br>7% | 1<br>7% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 15 | 11<br>73% | 2<br>13% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ac AGGCC (www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae'r ymadrodd hwn yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o anghenion. Defnyddiwn yr ymadrodd anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion yn ychwanegol at anghenion y rhan fwyaf o'r plant eraill yn y lleoliad, am sawl rheswm gwahanol. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys y Person Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol neu'r Person â Gofal<br><br>• Person Cofrestredig – y person sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gall fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br><br>• Unigolyn Cyfrifol – pan fydd y person cofrestredig yn sefydliad, dyma rywun wedi'i enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar ei ran<br><br>• Person â Gofal – yr unigolyn sydd wedi'i benodi gan y person cofrestredig i fod â gofal llawn am y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Dyma'r cwricwlwm statudol i bob plentyn tair i saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru. |
| **Dechrau'n Deg** | Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim i blant dwy oed cymwys i helpu i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a'u paratoi ar gyfer yr ysgol. Hefyd, darparant lefelau uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hybu eu lles. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.)  Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **System unigolyn allweddol neu weithiwr allweddol** | Dyma ymarferydd sydd wedi’i neilltuo i bob plentyn fel bod rhywun cyfarwydd, dibynadwy ar gael i’r plentyn a bod y plentyn yn teimlo’n ddiogel ac yn gyfforddus.  Mae’n meithrin perthynas gadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Ymarferwyr** | Pob unigolyn sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda phlant mewn lleoliad |